**EITEM AGENDA: 7**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**19eg Mawrth 2007**

## ALLDRO AMCANOL 2006-2007

**Adroddiad gan Ken Finch,**
**Trysorydd i'r Awdurdod**

## Diben yr Adroddiad

**1.** Diben yr adroddiad yw rhoi amcangyfrif i Aelodau o'r ffigurau alldro amcanol ar gyfer blwyddyn ariannol 2006-2007.

## Cyflwyniad

**2.** Roedd yr adroddiad diwethaf ar yr alldro amcanol a gyflwynwyd i Aelodau yn Rhagfyr 2006 yn nodi y byddai tanwariant o tua £195,000. Ond ers yr adroddiad hwnnw bu'n rhaid wrth wariant ychwanegol oherwydd materion Iechyd a Diogelwch penodol mewn rhai adeiladau ac er mwyn dyrannu adnoddau ychwanegol i waith Diogelwch Tân Cymunedol. Yn ôl yr hyn a ragwelir ar hyn o bryd bydd gorwariant o £143,385. Mae dadansoddiad manwl yn Atodiad A, a dangosir unrhyw danwariant mewn cromfachau ( ).

**Amrywiadau i'r Gyllideb**

**3.** Yn y gorffennol roedd cyfran fawr o'r tanwariant ar dâl oherwydd na ddefnyddiwyd yn llawn y gyllideb ar gyfer ffioedd staff rhan amser er mwyn delio â digwyddiadau yn sgil lefelau gweithgaredd isel. Ond eleni yn sgil y lefel uchel o weithgaredd yn ystod misoedd yr haf amcangyfrifir y bydd y gyllideb ar gyfer ffioedd digwyddiadau wedi'u defnyddio'n llawn a hwyrach y bydd gorwariant hyd yn oed. Gellir egluro'r tanwariant ar dâl yn bennaf oherwydd bod lefelau staff rhan amser yn is na'r hyn sydd yn y sefydliad; arbedion o safbwynt ffioedd digwyddiadau criw dydd; a'r oedi rhwng staff sy'n gadael a chyflogi staff newydd.

**4.** Cychwynnodd y Cytundeb Lefel Gwasanaeth newydd ar gyfer Rheoli Cyfleusterau ar 1 Mehefin 2006 a daeth yn gwbl weithredol yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Mae'r costau ar gyfer sefydlu Rheoli Cyfleusterau yn uwch na'r disgwyl, a hynny'n bennaf oherwydd hysbysebu ar gyfer recriwtio, ond roedd y gwariant ychwanegol i'w ariannu o'r incwm ychwanegol a ddisgwylid ar fuddsoddiadau.

**5.** Dyrannwyd cyllideb ar gyfer Rheoli Cyfleusterau er mwyn rheoli portffolio eiddo yr Awdurdod. Ond yn rhan olaf 2006 gwelwyd bod rhai pryderon o safbwynt iechyd a diogelwch (bwyleri gwresogi ac ansawdd dŵr) mewn rhai adeiladau, a bu'n rhaid dyrannu cyllideb ychwanegol o £100k i'r adran i gywiro'r problemau hyn. Roedd y gyllideb ychwanegol i'w hariannu o'r arbedion a ddisgwylid ar Daliadau Dyledion.

**6.** Rhagwelir y bydd gorwariant ar y gyllideb ar gyfer tanwydd oherwydd cynnydd mewn prisiau a lefelau gweithgaredd yn yr Haf.

**7.** O dan y pennawd Cyflenwadau a Gwasanaethau amcangyfrifir gorwariant o £119k. Mae prif feysydd gorwariant o dan y penawdau Diogelwch Tân Cymunedol a Chyfathrebu lle defnyddiwyd adnoddau ychwanegol i wella gwasanaethau.

**Amrywiadau i'r Gyllideb** *(parhad)*

**8.** Bydd tanwariant o £96k o ran taliadau dyledion a hynny'n bennaf oherwydd i ni fenthyca'n ddiweddarach yn y flwyddyn na'r hyn y cyllidwyd amdano oherwydd llithriant ar y rhaglen gyfalaf.

**9.** Mae'r tabl isod yn crynhoi'r sefyllfa:-

| Gorwariant £,000 | | Tanwariant £'000 | |
|---|---|---|---|
| Adeiladau | 100 | Taliadau dyledion | 96 |
| Sefydlu Rheoli Cyfleusterau | 19 | Incwm Buddsoddiadau | 30 |
| Tanwydd | 33 | | |
| Diogelwch Tân Cymunedol | 49 | | |
| Cyfathrebu Corfforaethol | 44 | | |
| Arall | 24 | | |
| Cyfanswm | 269 | | 126 |
| Gorwariant Net | | | 143 |

**Ariannu'r Gorwariant**

**10.** Bydd Aelodau'n cofio bod darpariaeth o £45k wedi'i neilltuo er mwyn cael cyngor gan ymgynghorwyr o safbwynt y Datganiad Rheoli Mewnol. Mae'r gwaith hwn, sydd ar fin cael ei gwblhau, yn debygol o gostio £7k. Gellir defnyddio balans y ddarpariaeth i'w roi yn erbyn rhan o'r gorwariant. Hefyd neilltuwyd £300k ar gyfer unrhyw ofynion posibl ar y Ddarpariaeth Bensiwn yn 2006-2007. Yn ôl yr hyn a ragwelir ar hyn o bryd ni fydd gofynion ar y ddarpariaeth yn 2006-2007 yn fwy na £150,000 felly bydd balans digonol i'w roi yn erbyn gweddill y gorwariant. Ni fydd angen gofyn i'r Awdurdodau Unedol gyfrannu arian pellach.

**ARGYMHELLIAD**

**11.** Argymhellir bod y gorwariant a ragwelir ar hyn o bryd yn cael ei nodi ac fel y nodir ym mharagraff 10 bod darpariaeth yn y gyllideb ar gyfer y gorwariant.